OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1428 (Cy.178)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*29 Mai 2012*
Yn dod i rym - -	*6 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 49(4) a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(a) o'r Mesur, a'i gymeradwyo gan benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012, a daw i rym ar 6 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Mesur

3. Nid yw gwasanaethau a thriniaeth sydd yn cael eu rhoi ar gael fel gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol(**2**) mewn ardal awdurdod lleol benodol o dan gynllun(**3**) i'w hystyried fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd(**4**) at ddibenion Rhan 2 (cydgysylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd) a Rhan 3 (asesiadau ar ddefnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur yn yr ardal awdurdod lleol honno.

(**1**) 2010 mccc 7.

(**2**) *Gweler* adran 5 (ystyr "gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol") o'r Mesur am ystyr gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.

(**3**) *Gweler* adran 2 (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) ac adran 4 (methiannau i gytuno ar gynlluniau) o'r Mesur sy'n ymwneud â chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol mewn ardaloedd awdurdod lleol.

(**4**) *Gweler* adran 49 (ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur am ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.